CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# ARWEINYDD/LEADER

**Y Cyng/Cllr Dilwyn Roberts,** Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU

Miss Tamsin Davies
Cadeirydd Grŵp Cymunedau Cynaliadwy
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
10 Stryd y Plas
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1RR

(01492) 576060
cyng.dilwyn.roberts@conwy.gov.uk
Dyddiad / Date: 28.07.15
Your Ref:

Annwyl Miss Davies,

**Bil Cynllunio**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin 2017 ynglŷn â pholisi'r Gymraeg a'r Bil Cynllunio yma yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Yng Nghonwy mae'r Gymraeg eisoes yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae gan yr awdurdod bolisïau Cymraeg cryf yn ei Gynllun Datblygu Lleol (DP/1, CTH/1, CTH/5) a gefnogir gan Ganllaw Cynllunio Atodol y Gymraeg. Felly, ni fydd y rhan hon o'r Bil Cynllunio yn effeithio ar y broses gynllunio yng Nghonwy. Mae'r polisïau hyn yn mynd y tu hwnt i ofynion Nodyn Cyngor Technegol (TAN 20) Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod pwysigrwydd y Gymraeg i gymunedau lleol yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Yng Nghonwy rydym wrthi'n paratoi ein Hadroddiad Monitro Blynyddol cyntaf. Fel rhan o hyn byddwn yn asesu newidiadau i bolisïau a deddfwriaethau ac effaith hynny ar weithrediad y Cynllun Datblygu Lleol. Fel yr esbonnir uchod, ystyrir bod y Cynllun Datblygu Lleol eisoes yn bodloni gofynion y Bil Cynllunio o ran y Gymraeg, ac felly mae'n annhebygol y byddai angen adolygiad ar y sail hon. Fodd bynnag, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried y Cynllun Datblygu Lleol yn briodol yn erbyn y Bil Cynllunio a newidiadau polisi/deddfwriaethol eraill.

Yn ddiffuant,

Dilwyn O. Roberts

Y Cyng. Dilwyn Roberts
**Arweinydd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**